Archwilio Cymru
Audit Wales

# Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

Mai 2025



Paratowyd a chyhoeddwyd yr adroddiad hwn i’w gyflwyno i’r Senedd o dan Deddf Llywodraeth Cymru 1998

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i’r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle’r ydym wedi adnabod unrhyw ddeunydd y mae’r hawlfraint arno’n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o’n cyhoeddiadau mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni trwy ffonio 029 2032 0500, neu drwy anfon neges e-bost i post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gallwch hefyd ysgrifennu atom yn Gymraeg neu yn Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Ffeithiau allweddol 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 9

## Adroddiad manwl

1 Dull strategol Llywodraeth Cymru 12

2 Cyllideb a gwariant i roi cymorth i gyflawni 18

3 Gweithredu 27

## Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith 41

2 Cyllid a chyfrifyddu ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith 44

# Ffeithiau allweddol

**10 mlynedd** – y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2022-23 i 2031-32

**3 blynedd** – y Cynllun Cyllid Seilwaith 2022-23 i 2024-25

**£8.1 biliwn** – gwariant cyfalaf disgwyliedig Llywodraeth Cymru trwy gydol oes ei Chynllun Cyllid Seilwaith 2022-23 i 2024-25

**£3.4 biliwn** – cyllideb gyfalaf gyffredinol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26

**16** – nifer y 'deilliannau strategol' a nodir yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

**53** – nifer y 'meysydd buddsoddi' a nodir yn y Cynllun Cyllid Seilwaith

Nodyn: Nid yw ffigwr y gyllideb ar gyfer 2025-26 yn gallu cael ei gymharu'n uniongyrchol â'r ffigwr ar gyfer gwariant disgwyliedig y Cynllun Cyllid Seilwaith. Y rheswm dros hyn yw bod cyllid ar gyfer newidiadau cyfrifyddu wedi cael ei gynnwys yn ffigwr cyllideb 2025-26 ond nid yn y ffigwr ar gyfer blynyddoedd cynharach (gweler **Atodiad 2**).

# Negeseuon allweddol

## Cyd-destun

1 Mae buddsoddi mewn seilwaith – megis ysgolion, ysbytai ac amddiffynfeydd rhag llifogydd – yn cefnogi llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio aildrefnu ei dull cyffredinol o gynllunio a chyflawni ei rhaglenni buddsoddi.

2 Ym mis Rhagfyr 2021, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru deng mlynedd, yn dilyn ymrwymiad cynharach yn y Rhaglen Lywodraethu i strategaeth o'r fath. Cyhoeddodd hefyd y Cynllun Cyllid Seilwaith tair blynedd ategol ar gyfer y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r dogfennau hyn yn nodi'r uchelgais i ganolbwyntio buddsoddiad mewn seilwaith ar sicrhau 16 o ddeilliannau strategol, a danategir gan chwe egwyddor drawsbynciol.

3 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried a oes gan Lywodraeth Cymru ddull strategol cadarn o roi cymorth i wireddu ei huchelgeisiau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Mae'n canolbwyntio ar y cyfeiriad strategol a bennwyd trwy'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a threfniadau sy'n rhoi cymorth i'w chyflawni. Fel rhan o hyn, mae'n ystyried a yw Llywodraeth Cymru wedi sefydlu 'edefyn aur' eglur i sicrhau bod rhaglenni a phrosiectau yn cynyddu i'r eithaf eu cyfraniad at ddeilliannau strategol gwariant cyfalaf.

4 Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried cynllunio ariannol ar gyfer buddsoddi cyfalaf a buddsoddi mewn seilwaith. Rydym yn cydnabod yr effeithir ar allu Llywodraeth Cymru i bennu cyllidebau tymor hwy gan ddau gyfyngiad allweddol:

- cylch cyllidebol Llywodraeth y DU, sy'n pennu cyllid Llywodraeth Cymru dros amser; a hefyd
- cylch etholiadol y Senedd, gyda phob llywodraeth newydd yn pennu ei blaenoriaethau buddsoddi ei hun.

5 Nid yw'r adroddiad hwn yn ystyried gwerth am arian rhaglenni a phrosiectau seilwaith unigol. Mae **Atodiad 1** yn darparu rhagor o fanylion am ein gwaith. Mae **Atodiad 2** yn darparu rhagor o wybodaeth am gyllid a chyfrifyddu ar gyfer seilwaith.

## Casgliad ar y cyfan

6 Ar y cyfan, mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n gam ymlaen o ran ceisio sicrhau bod buddsoddi mewn seilwaith yn cyflawni ystod eang o ddeilliannau strategol. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu sefydlu 'edefyn aur' eglur rhwng deilliannau'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a fframwaith ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau sydd ag amryw wendidau eraill. Mae'r dystiolaeth yr ydym ni wedi ei harchwilio'n awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru'n rhoi digon o feddwl i gynyddu i'r eithaf gyfraniadau adrannau at y deilliannau a ddymunir ac adrodd arnynt.

7 Yn wreiddiol fe danategodd Llywodraeth Cymru'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru â chynllun cyllid tair blynedd ar gyfer y cyfnod o 2022-23 i 2024-25, a oleuwyd gan adolygiad cwbl gynhwysfawr. Roedd y dull hwn yn welliant ond nid oedd yn rhoi sicrwydd tymor hwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cyhoeddi Cynllun Cyllid Seilwaith un flwyddyn ar gyfer 2025-26. Mae'n ystyried sut i ddatblygu Cynlluniau Cyllid Seilwaith yn y dyfodol yng ngoleuni adolygiad o wariant Llywodraeth y DU yn haf 2025 ac etholiadau'r Senedd yn 2026.

## Materion allweddol

### Dull strategol Llywodraeth Cymru

- Ar y cyfan, mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n gam ymlaen ac yn darparu cyfeiriad tymor hwy, seiliedig-ar-ddeilliannau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith sydd wedi'i wreiddio yn llesiant cenedlaethau'r dyfodol.
- Roedd Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru'n hwyr ac nid yw'n disgrifio effeithiau'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n llawn.

### Cyllideb a gwariant i roi cymorth i gyflawni

- Roedd y dull cychwynnol o ran defnyddio Cynllun Cyllid Seilwaith tair blynedd a oedd yn seiliedig ar adolygiad cwbl gynhwysfawr yn welliant ond nid oedd yn rhoi sicrwydd tymor hwy.
- Mae Llywodraeth Cymru’n bwriadu sicrhau gwerth am arian trwy ddefnyddio’r mathau rhataf o fuddsoddiad yn gyntaf ac mae’n deall manteision a risgiau gwahanol fodelau ariannu.
- Ar ôl cyfnod o dwf, fe wnaeth chwyddiant a phwysau eraill o ran costau wasgu gwariant cyfalaf yn nhair blynedd Cynllun Cyllid Seilwaith 2022-23 i 2024-25.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu Cynllun Cyllid Seilwaith un flwyddyn ar gyfer 2025-26 ac mae’n ystyried sut i ddatblygu Cynlluniau Cyllid Seilwaith yn y dyfodol yng ngoleuni’r adolygiad o wariant sydd ar ddod gan Lywodraeth y DU ac etholiadau’r Senedd yn 2026.

---

### Gweithredu

- Ni wnaeth adolygiad cwbl gynhwysfawr 2021 sefydlu aliniad cadarn â deilliannau strategol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ac mae cyfraniadau bwriadedig nifer o feysydd buddsoddi i’w gweld yn anuchelgeisiol.
- Ceir gwendidau ar draws fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio a rheoli rhaglenni a phrosiectau ac nid yw’n alinio ddigon â’r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.
- Mae fframwaith gwerthuso’r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru’n defnyddio egwyddorion arfer da ond mae mabwysiadu anghyson ar draws meysydd buddsoddi a bylchau yn y data’n golygu bod y deilliannau ar y cyfan yn aneglur.

---

Mae'r £3 biliwn a mwy y flwyddyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wario ar seilwaith yn sylweddol. Mae'n dda gweld y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n canolbwyntio ar gael mwy o effaith o seilwaith cyhoeddus – yn anad dim yn dilyn cyfnod pan fo chwyddiant a phwysau o ran costau wedi gwasgu cyllidebau cyfalaf.

Fodd bynnag, ni fydd y manteision hyn yn dod yn ffaith trwy hyd a lledrith. Mae angen ymdrech ar y cyd i gydlynu peirianwaith y llywodraeth – gan greu cynlluniau ar gyfer y manteision hyn o'r dechrau un a sicrhau y cânt eu cyflawni dros y tymor hwy. Mae'r materion hyn o fewn gallu Llywodraeth Cymru i'w datrys, ond maent yn dibynnu ar welliant parhaus yn y modd y rheolir rhaglenni a phrosiectau, rhywbeth nad yw wedi cael ei gyflawni hyd yma.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Argymhellion

## Argymhellion

### Gwelliannau brys i reoli rhaglenni a phrosiectau

A1 Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i gryfhau'r dull o reoli rhaglenni a phrosiectau ar y cyfan, gan weithredu ar argymhellion archwilio mewnol, sefydlu trefniadau arwain effeithiol, a blaenoriaethu capasiti i gefnogi adrannau. Dylai hyn gynnwys egluro rôl y Swyddfa Cyflawni Prosiectau a'r adnoddau a neilltuir iddi. (Gweler **paragraffau 3.10 i 3.23**)

A2 Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau rôl ei Grŵp Strategaeth Seilwaith i ddarparu goruchwyliaeth strategol gadarn ar gynlluniau seilwaith a buddsoddiadau mewn seilwaith ar draws adrannau i sicrhau cysondeb â'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Dylai hyn gynnwys sicrhau ei fod yn cael gwybodaeth well am gyflawni rhaglenni, gwariant arnynt a'u manteision. (Gweler **paragraffau 3.22 a 3.23**)

### Adolygiadau cwbl gynhwysfawr

A3 Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gynnal adolygiadau cwbl gynhwysfawr ar gyfer unrhyw Gynlluniau Cyllid Seilwaith amlflwyddyn yn y dyfodol dan y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. (Gweler **paragraffau 2.2 a 2.3**)

## Argymhellion

### Diweddaru templedi a chanllawiau

A4 Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau ei thempledi a phrosesau ar gyfer adolygiadau cwbl gynhwysfawr ac achosion busnes i gynyddu i'r eithaf y manteision a gyflawnir trwy ei gwneud yn ofynnol i adrannau:

a. nodi'n fanwl sut y bydd meysydd buddsoddi, rhaglenni a phrosiectau'n cyfrannu at bob un o ddeilliannau strategol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru neu gyfiawnhau pa ddeilliannau nad ydynt yn disgwyl iddynt gyfrannu atynt (gweler **paragraffau 3.3 i 3.5 ac Arddangosyn 8**); a

b. defnyddio dangosyddion cenedlaethol perthnasol i ddangos cynnydd, gan gynnwys aliniad â'r dangosyddion llesiant cenedlaethol, yr offeryn manteision cymunedol ym maes caffael a mesurau lleihau carbon. (Gweler **paragraffau 3.13 i 3.14 ac Arddangosyn 10**)

A5 Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau templedi gwerthuso i'w gwneud yn ofynnol i adrannau ddefnyddio dull cyson o ddangos cynnydd yn erbyn deilliannau strategol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r modd y maent yn cymhwyso'r egwyddorion trawsbynciol. (Gweler **paragraffau 3.25 i 3.27 ac Arddangosyn 12**)

### Sicrwydd cyllid hirdymor

A6 Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu opsiynau ar gyfer galluogi cynllunio ariannol hirdymor y tu hwnt i'r cyfnod sefydlog o dair blynedd a rychwentir gan Gynllun Cyllid Seilwaith, gan gydnabod cyfyngiadau cyfredol y cylch cyllidol a gwleidyddol. (Gweler **paragraffau 2.2 i 2.7**)

A7 Gan adeiladu ar argymhelliad tebyg a wnaethom yn ddiweddar mewn perthynas â thai fforddiadwy, dylai Llywodraeth Cymru ehangu cynllunio ariannol tymor hwy o fewn rhaglenni, yn enwedig y rhai lle ceir angen hirdymor hysbys. Dylai ddefnyddio gwersi o'r dull naw mlynedd dreigl a ddefnyddir yn y rhaglen ar gyfer adeiladau ysgolion a cholegau. (Gweler **paragraffau 2.2 i 2.7 ac Arddangosyn 3**)

## Argymhellion

### Diweddaru'r dull strategol

A8 Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir beth yw'r cysylltiadau rhwng deilliannau strategol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r nodau llesiant cenedlaethol, gan gydnabod y gall rhai deilliannau gyfrannu at fwy nag un nod. Wrth wneud hynny, dylai wirio nad oes unrhyw fylchau sylweddol mewn perthynas â chyrraedd pob nod llesiant. (Gweler **paragraffau 1.5 i 1.9**)

A9 Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r aliniad rhwng deilliannau strategol ac egwyddorion trawsbynciol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru gyda golwg ar leihau dyblygu i'r eithaf a'i gwneud yn haws i adrannau gynllunio prosiectau a rhaglenni. (Gweler **paragraffau 1.5 i 1.9**)

### Cryfhau prosesau ar gyfer adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd a chefnogi gweithgarwch craffu

A10 Dylai Llywodraeth Cymru ddwyn ynghyd brosesau ar gyfer adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd rhaglenni a phrosiectau mawr, gan ddysgu gwersi o'r dull adrodd a ddefnyddir gan yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau yn Lloegr sy'n cynnwys costau, manteision ariannol, a hyder ynglŷn â chyflawni. (Gweler **paragraffau 3.22 i 3.23**)

A11 Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn gyhoeddus ar gynnydd ar y cyfan o ran cyflawni'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, yn enwedig cynnydd o ran cyflawni'r deilliannau strategol. Dylai wneud hynny yn dilyn pob cam gwerthuso interim ac ar y cam gwerthuso terfynol. (Gweler **paragraff 3.30**)

# Dull strategol Llywodraeth Cymru

# 01

1.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried a yw Llywodraeth Cymru wedi pennu cyfeiriad strategol eglur ar gyfer ei buddsoddiad cyfalaf a'i buddsoddiad mewn seilwaith.

**Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano**

Fe wnaethom ystyried a yw'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n pennu cyfeiriad strategol eglur, gan gynnwys bod â blaenoriaethau eglur a deilliannau mesuradwy. Fe wnaethom ystyried a yw'n ategu uchelgeisiau polisi eraill a dyletswyddau trawsbynciol, gan gynnwys mewn perthynas â chydraddoldeb, newid hinsawdd, a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

## Ar y cyfan, mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n gam ymlaen ac yn darparu cyfeiriad tymor hwy, seiliedig-ar-ddeilliannau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith sydd wedi'i wreiddio yn llesiant cenedlaethau'r dyfodol

### Dysgodd Llywodraeth Cymru wersi o'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru blaenorol

1.2 Roedd Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2012[1] yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i gyni cyllidol. Roedd y cynllun yn dwyn ynghyd raglenni a phrosiectau ar draws Llywodraeth Cymru mewn un cynllun. Fodd bynnag, rhestr ydoedd yn y bôn, yn hytrach na dull strategol.

1.3 Yn 2020, fe wnaeth Llywodraeth Cymru adolygu'r cynllun i oleuo datblygiad y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Adnabu wersi allweddol i ddatblygu dull strategol tymor hwy trwy'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (gweler **Arddangosyn 1**).

1 Llywodraeth Cymru, Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar gyfer twf a swyddi 2012, Mai 2012

### Arddangosyn 1: gwersi o adolygiad Llywodraeth Cymru o Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2012

Daeth yr adolygiad i'r casgliad, er mwyn sicrhau llwyddiant unrhyw ddull strategol yn y dyfodol, y byddai angen i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- mynd ati'n strategol i gynllunio buddsoddiad ar draws y Llywodraeth a sicrhau bod rhaglenni'n cael eu cyflawni mewn modd tryloyw;
- datblygu deilliannau sy'n flaenoriaeth ar gyfer sectorau;
- datblygu blaenoriaethau thematig ar draws y Llywodraeth;
- adnabod ei dull strategol o gyflawni deilliannau dros yr hirdymor; ac
- ategu'r dull hirdymor â chynlluniau cyllid tymor byrrach.

Ffynhonnell: dadansoddiad Archwilio Cymru o ddogfennau Llywodraeth Cymru

**Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n darparu cyfeiriad tymor hwy trwy ddeilliannau strategol ac egwyddorion trawsbynciol ond byddai o fudd pe bai'n alinio'n fwy eglur â'r nodau llesiant cenedlaethol**

1.4 Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n pennu gweledigaeth ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae pennu dull tymor hwy o fuddsoddi mewn seilwaith yn adlewyrchu arfer da ac yn adeiladu ar y cynllun deng mlynedd blaenorol. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu tanategu'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru â chyfres o gynlluniau cyllid. Rydym yn ystyried sut y mae'r cyllid wedi gweithio'n ymarferol yn **Rhan 2**.

1.5 Yn gadarnhaol, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio sicrhau mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw'r prif ysgogiad ar gyfer ei dull o fuddsoddi mewn seilwaith. Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n ceisio gwneud hynny trwy gyfarwyddo prosiectau a rhaglenni i gyflawni deilliannau strategol lluosog sy'n mynd y tu hwnt i fanteision craidd creu neu gynnal a chadw ased. Rydym yn ystyried i ba raddau y mae prosiectau a rhaglenni wedi alinio â'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn ymarferol yn **Rhan 3**.

1.6 Mae **Arddangosyn 2** yn dangos sut y mae'r 16 o ddeilliannau strategol yn cyd-fynd â'r pedwar maes llesiant: amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Mae'r pedwar maes hyn yn adlewyrchu diffiniad y Ddeddf o ddatblygu cynaliadwy. Mae'r dull hwn o wasgu'r manteision mwyaf posibl o fuddsoddiad gan ddefnyddio deilliannau strategol i siapio cynlluniau a'r modd y cânt eu cyflawni'n adlewyrchu arfer da hirsefydlog a nodau'r Ddeddf.

**Arddangosyn 2: Fframwaith meysydd llesiant y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**

## Nodau Llesiant Cenedlaethol Cymru




| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru llewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

## Y pedwar maes llesiant a chanlyniadau buddsoddi strategol

### Llesiant Amgylcheddol

1 Datgarboneiddio a lleihau nwyon tŷ gwydr

2 Buddsoddi mewn bioamrywiaeth a chyfalaf naturiol

3 Gwella ansawdd aer a dŵr

4 Lleihau defnyddio adnoddau naturiol mewn modd anghynaliadwy

### Llesiant Cymdeithasol

5 Gwella a diogelu iechyd corfforol, diogelwch a llesiant pobl Cymru

6 Gwella a diogelu iechyd meddwl a llesiant pobl Cymru

7 Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol

8 Gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus allweddol

### Llesiant Economaidd

9 Cymorth i godi lefelau cyflogaeth ledled Cymru

10 Cymorth i wella cynhyrchiant busnesau

11 Cynyddu incwm gwirioneddol aelwydydd

12 Gwella deilliannau addysgol

### Llesiant Diwylliannol

13 Gwella mynediad at y Gymraeg a chynyddu'r defnydd ohoni

14 Hybu mynediad at weithgareddau diwylliannol a chyfranogiad ynddynt, gan gynnwys y celfyddydau a threftadaeth

15 Codi lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a hamdden

16 Gwella'r buddsoddiad mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Rhagfyr 2021

1.7 Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru hefyd yn nodi chwe egwyddor drawsbynciol. Mae'n nodi bod angen i adrannau wreiddio'r egwyddorion, ynghyd â'r deilliannau strategol, o fewn cynigion seilwaith i gael cyllid. Mae'r egwyddorion trawsbynciol yn adlewyrchu blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru. Maent fel a ganlyn:

- Ymrwymiad trosfwaol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur
- Gwreiddio cyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys cynyddu i'r eithaf degwch i bawb a dileu anghydraddoldeb
- Creu lleoedd, er enghraifft trwy gydleoli gwasanaethau
- Taro cydbwysedd rhwng buddsoddi mewn seilwaith newydd a chynnal a chadw seilwaith presennol
- Cydnerthedd yn wyneb tueddiadau'r dyfodol, megis newid amgylcheddol
- Caffael cynaliadwy sy'n cyfrannu at amcanion polisi ehangach

1.8 Er bod y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n adlewyrchu arfer da gan mwyaf, gallai nodi'n fwy eglur sut y mae'r deilliannau strategol yn alinio â'r saith nod llesiant cenedlaethol yn y Ddeddf. Mae'r nodau llesiant yn cynrychioli'r amcanion trosfwaol a ddylai lywio prosesau penderfynu strategol ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

1.9 Yn ein tyb ni, byddai bod ag 'edefyn aur' eglur sy'n cysylltu deilliannau strategol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru â'r nodau llesiant cenedlaethol yn helpu i ddarparu cyfeiriad mwy cydlynus ar gyfer y rhai sy'n gyfrifol am gynllunio a rheoli rhaglenni a phrosiectau. Byddai hyn o gymorth hefyd i gydymffurfio â'r rheolau newydd[2] sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus alinio strategaethau a gweithgarwch caffael â'r nodau llesiant.

1.10 Hefyd, ceir dyblygu rhwng rhai deilliannau strategol a'r egwyddorion trawsbynciol sy'n ymwneud â'r argyfwng hinsawdd a natur a chyfiawnder cymdeithasol. Ceir risg bod y dyblygu hwn yn ychwanegu cymhlethdod ar gyfer y rhai sy'n ceisio alinio eu rhaglenni â'u prosiectau â'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

## Roedd Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru'n hwyr ac nid yw'n disgrifio effeithiau'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n llawn

1.11 Fe gwblhaodd Llywodraeth Cymru Asesiad Effaith Integredig ym mis Medi 2023, ddwy flynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Dylai asesiadau effaith fod ar gael i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar y pryd. Mae'n hepgoriad arwyddocaol bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu a chyflwyno'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn niffyg asesiad effaith.

2 A nodir yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

1.12 Mae'r fersiwn lawn o'r asesiad nas cyhoeddwyd yn cyfuno asesiadau effaith cyflawn ar gyfer cydraddoldeb, y Gymraeg, a bioamrywiaeth. Mae hefyd yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod, wrth ddatblygu'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[3].

1.13 Dylai cyrff cyhoeddus gyhoeddi eu hasesiadau effaith. Fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen a oedd yn dwyn y teitl asesiad effaith integredig ar ei gwefan ym mis Hydref 2023[4]. Fodd bynnag, dim ond peth o gyd-destun cyffredinol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru y mae'r ddogfen hon yn ei gynnwys ochr yn ochr â'r agweddau ar yr Asesiad Effaith Integredig sy'n ymwneud â sut y cymhwysodd y pum ffordd o weithio.

1.14 Mae'r asesiad effaith yn nodi: 'Ni fydd y Strategaeth ar ei phen ei hun yn cyflawni unrhyw effeithiau.' Mae Llywodraeth Cymru'n dadlau bod y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n darparu fframwaith ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiadau, ond y bydd yr effeithiau'n dod trwy raglenni a phrosiectau unigol.

1.15 Fodd bynnag, nod craidd y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yw cynyddu'r ystod o effeithiau o fuddsoddi mewn seilwaith. Yn ein barn ni, gallai Llywodraeth Cymru fod wedi mynegi yn yr asesiad sut y bydd y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ei hun yn ysgogi effeithiau mwy ar draws y pedwar maes llesiant, yn ogystal â chydnabod rhai o'r cyfaddawdau sy'n anorfod wrth flaenoriaethu adnoddau cyfyngedig.

1.16 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym fod cynnwys yr Asesiad Effaith Integredig ar gyfer y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r dull o gyhoeddi crynodeb yn gyson â chanllawiau mewnol yn ogystal ag Asesiadau Effaith Integredig a gynhyrchwyd ar gyfer strategaethau eraill. Rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru'n adolygu ei dull o gynnal Asesiadau Effaith Integredig. Mae'r gwaith hwn yn berthnasol i argymhelliad blaenorol a wnaed yn ein hadroddiad yn 2022 ar asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb[5].

3 Y pum ffordd o weithio yw: hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio, a chynnwys.

4 Llywodraeth Cymru, Strategaeth buddsoddi yn seilwaith Cymru: asesiad effaith integredig, Hydref 2023

5 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?, Medi 2022

# Cyllideb a gwariant i roi cymorth i gyflawni

02

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried a oes gan Lywodraeth Cymru ddull cadarn o ariannu ei buddsoddiad cyfalaf a'i buddsoddiad mewn seilwaith.

**Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano**

Fe wnaethom ystyried a yw dull Llywodraeth Cymru o ddyrannu gwariant buddsoddi'n adlewyrchu arfer da, gan gynnwys a yw'r dull:

- o gymorth i gynllunio a rheoli buddsoddiadau mewn seilwaith dros y tymor hwy;
- yn galluogi Llywodraeth Cymru i alinio cyllid â'i blaenoriaethau datganedig; ac
- yn ddigon hyblyg i'w galluogi i addasu i bwysau o ran cyllid a dyrannu cyllid ychwanegol.

## Roedd y dull cychwynnol o ran defnyddio Cynllun Cyllid Seilwaith tair blynedd a oedd yn seiliedig ar adolygiad cwbl gynhwysfawr yn welliant ond nid oedd yn rhoi sicrwydd tymor hwy

2.2 Yn 2021, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Cyllid Seilwaith cyntaf dan y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Roedd yn dilyn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU yn 2021 ac yn nodi cyllidebau cyfalaf ar gyfer y tair blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25[6].

2.3 Roedd y Cynllun Cyllid Seilwaith yn adeiladu ar adolygiad cwbl gynhwysfawr cyntaf Llywodraeth Cymru. Mae adolygiadau cwbl gynhwysfawr yn arfer da. Maent yn rhoi cyfle i brofi'r gwerth am arian a gynigir gan gynlluniau arfaethedig a phresennol ac i flaenoriaethu adnoddau. Rydym yn ystyried gwersi o sut y gweithiodd yr adolygiad cwbl gynhwysfawr yn ymarferol yn **Rhan 3**. Nid yw'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n rhwymo Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad cwbl gynhwysfawr wrth baratoi Cynlluniau Cyllid Seilwaith yn y dyfodol.

2.4 Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n rhwymo Llywodraeth Cymru i ddarparu sicrwydd tymor hwy lle y bo'n bosibl. Mae nodi cynlluniau gwariant cyfalaf dros nifer o flynyddoedd yn cynnig mwy o sicrwydd na chyllidebau blynyddol. Mae'n galluogi adrannau i weithio gyda phartneriaid i gynllunio'n fwy strategol ar gyfer anghenion hirdymor ac i ddatblygu llifoedd o brosiectau posibl i'w dwyn gerbron dros amser.

6 Yn flaenorol roedd Llywodraeth Cymru wedi pennu cyllideb gyfalaf pedair blynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2017-18 a 2020-21 ac yna cyllideb un flwyddyn ar gyfer 2021-22.

2.5 Serch hynny, dim ond hyn a hyn o sicrwydd y mae'r cyfnod o dair blynedd a rychwentir gan y Cynllun Cyllid Seilwaith yn ei roi. Mae gan y Cynllun Cyllid Seilwaith gyfnod sefydlog o dair blynedd. Felly, mae lefel y sicrwydd yn lleihau wrth i ddiwedd y cyfnod nesáu. Fe wnaethom ni amlygu'r heriau mewn perthynas â diffyg ymrwymiadau cyllid hirdymor mewn nifer o adroddiadau, gan gynnwys ein hadroddiad yn 2024 ar dai fforddiadwy[7].

2.6 Yn ymarferol, mae Llywodraeth Cymru'n wynebu cyfyngiadau o ran pennu cynlluniau ariannol tymor hwy, gan bod ei chyllid hi ei hun yn cael ei bennu trwy gylchoedd cyllidebol y DU. Cyfyngir arni hefyd gan gylchoedd etholiadol y Senedd, gan bod gan bob Llywodraeth newydd ei blaenoriaethau ei hun.

2.7 O fewn rhai rhaglenni ceir rhywfaint o gynllunio treigl, gyda llifoedd o brosiectau sy'n rhedeg dros gyfnod hwy. Enghraifft o ddull tymor hwy yw'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (gweler **Arddangosyn 3**).

**Arddangosyn 3: cynllunio treigl dros naw mlynedd yn y rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy**

Rhaglen fawr ar gyfer adeiladau newydd neu ailfodelu'r ystâd ysgolion ac addysg bellach yw Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol baratoi rhaglenni treigl naw mlynedd. Mae'n gwneud ymrwymiad cadarn ar gyfer tair blynedd gyntaf y rhaglen gytunedig, gydag ymrwymiadau mewn egwyddor ar gyfer blynyddoedd pedwar i chwech. Mae blynyddoedd saith i naw yn cynrychioli'r llif tymor hwy.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd y dull tymor hwy'n golygu y bydd prosiectau'n symud ymlaen ar gyflymder partneriaid cyflawni ac yn ôl eu blaenoriaethau, gan gael gwared ar yr amgylchedd o fod yn 'or-optimistaidd' neu'r angen i bartneriaid cyflawni gyflwyno cynigion rhy uchelgeisiol yn ystod ffenestr gynigion gul.

Ffynhonnell: crynodeb Archwilio Cymru

7 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tai fforddiadwy, Medi 2024

## Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu sicrhau gwerth am arian trwy ddefnyddio'r mathau rhataf o fuddsoddiad yn gyntaf ac mae'n deall manteision a risgiau gwahanol fodelau ariannu

2.8 Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n nodi egwyddor graidd defnyddio'r math rhataf o fuddsoddiad yn gyntaf. Mae gan Lywodraeth Cymru 'hierarchaeth' o ffynonellau cyllid (gweler **Arddangosyn 4**). Mae'n blaenoriaethu cyfalaf o'r grant bloc, gan gynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol.

**Arddangosyn 4: ffynonellau cyllid y mae Llywodraeth Cymru'n eu defnyddio ar gyfer seilwaith**

| Ffynhonnell cyllid | Sylwebaeth |
|---|---|
| **Cyllid cyfalaf** | |
| Cyfalaf cyffredinol | Y brif ffynhonnell ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Mae'n cynnwys cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth y DU a chyllid a godwyd trwy drethi yng Nghymru. |
| Cyfalaf trafodiadau ariannol | Rhan wedi'i chlustnodi o'r cyllid gan Lywodraeth y DU. Mae'n ariannu buddsoddiadau mewn asedau preifat ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ad-dalu 60% i 80% i Drysorlys EF. |
| **Cyllid refeniw** | |
| Benthyciadau | Gall Llywodraeth Cymru fenthyca cyfanswm o £1 biliwn gyda therfyn blynyddol o £150 miliwn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dibynnu ar barodrwydd awdurdodau lleol i ddefnyddio eu pwerau benthyca i gefnogi rhaglenni seilwaith allweddol. |
| Model Buddsoddi Cydfuddiannol | Menter gan Lywodraeth Cymru lle mae partneriaid yn y sector preifat yn adeiladu ac yn cynnal a chadw asedau cyhoeddus. Unwaith y mae'n weithredol, bydd y corff cyhoeddus perthnasol yn talu ffi reolaidd o'i gyllideb refeniw i'r partner preifat. Bydd y ffi'n talu cost adeiladu, cynnal a chadw, a chyllido'r prosiect. |

Ffynhonnell: crynodeb Archwilio Cymru

Nodyn: Mae gan Lywodraeth Cymru opsiwn i ddefnyddio bondiau hefyd ond nid yw wedi gwneud hynny. Mae **Atodiad 2** yn darparu rhagor o fanylion am y ffynonellau uchod ac am fondiau.

2.9 Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n egluro y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio buddsoddiad a ariennir â chyllid refeniw, trwy fenthyciadau neu gynlluniau eraill, ar gyfer prosiectau risg-isel a lle y bo angen[8]. Mae'n cydnabod y gallai'r dulliau hyn gostio mwy dros y tymor hwy a lleihau'r cyllid sydd ar gael at ddibenion o ddydd i ddydd. Ar y cyfan, mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n dangos bod gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth dda am fanteision a risgiau gwahanol fodelau ariannu.

2.10 Cyn 2024, roedd Llywodraeth Cymru'n gallu defnyddio Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd i fuddsoddi mewn seilwaith. Fe sefydlodd Llywodraeth y DU Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i ddisodli'r ffynhonnell cyllid hon. Yn wahanol i gyllid yr UE, Llywodraeth y DU sy'n rheoli'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ac yn ei dyrannu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol.


## Ar ôl cyfnod o dwf, fe wnaeth chwyddiant a phwysau eraill o ran costau wasgu gwariant cyfalaf yn nhair blynedd Cynllun Cyllid Seilwaith 2022-23 i 2024-25

### Yn y degawd hyd at 2021-22 fe welwyd twf mewn termau real mewn gwariant cyfalaf

2.11 Fe gynyddodd gwariant cyfalaf mewn termau real 76% o £1.9 biliwn yn 2011-12 i £3.3 biliwn yn 2021-22 (gweler **Arddangosyn 5**). Roedd gwariant cyfalaf yn wastad fwy neu lai rhwng 2011-12 a 2016-17 ond fe gynyddodd o £1.8 biliwn yn 2016-17 i £2.5 biliwn yn 2019-20. Roedd gwariant yn 2020-21 a 2021-22 yn uwch nag y byddai wedi bod fel arall oherwydd yr ymateb i COVID-19.

8 Ni wnaethom archwilio i ba raddau yn ymarferol y mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso'r egwyddor risg-isel i brosiectau sydd wedi cael cyllid refeniw.

### Arddangosyn 5: alldro cyfalaf Llywodraeth Cymru mewn termau real, rhwng 2011-12 a 2021-22 (prisiau 2023-24)




Ffynhonnell: Llywodraeth y DU, Dadansoddiad Ystadegol o Wariant Cyhoeddus, rhifynnau o 2012-13 i 2021-22

Nodiadau:

1 Mae'r siart hon yn cynnwys yr holl wariant cyfalaf a ariannwyd â'r grant bloc a threthi yng Nghymru, gan gynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol. Mae'n cynnwys swm bach o gyfalaf a wariwyd gan Gomisiwn y Senedd, yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddfa Archwilio Cymru nad yw'n cael ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru.

2 Rydym wedi defnyddio chwyddiant fel y'i nodwyd yn natchwyddyddion Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys EF yn ôl y sefyllfa ym mis Mawrth 2025.

### Yn nhair blynedd y Cynllun Cyllid Seilwaith cafodd gwariant cyfalaf ei wasgu gan bwysau chwyddiannol

2.12 Mae cymharu gwariant cyfalaf dros amser yn cael ei gymhlethu gan newidiadau cyfrifyddu diweddar. O 2022-23 ymlaen, rhaid i sefydliadau roi cyfrif am rai taliadau sy'n rhan o gynlluniau lesio fel cyfalaf yn hytrach na refeniw[9]. Yn yr adran hon rydym wedi addasu data ar wariant a chyllidebau i dynnu'r cyfalaf wedi'i ailddosbarthu allan. Mae gwneud hynny'n ein galluogi i gymharu dros amser ac i gymharu gwariant gwirioneddol â'r cynlluniau gwreiddiol a nodwyd yn y Cynllun Cyllid Seilwaith[10].

9 Mae **Atodiad 2** yn darparu rhagor o fanylion am y newidiadau.

10 Rydym wedi hepgor gwariant cyfalaf o £209 miliwn yn 2022-23 a £362 miliwn yn 2023-24, a £339 miliwn o gyllideb 2024-25.

2.13 Roedd y Cynllun Cyllid Seilwaith yn cynnwys ymrwymiad i wario £8.1 biliwn dros y tair blynedd rhwng 2022-23 a 2024-25 (heb addasu ar gyfer chwyddiant). Mae gwariant ar y cyfan wedi cyfateb fwy neu lai i'r dyraniad yn y Cynllun Cyllid Seilwaith. Gan gynnwys cyllideb 2024-25, mae'r cyfanswm a wariwyd neu a ddyrannwyd dros gyfnod y Cynllun Cyllid Seilwaith yn £8.1 biliwn.

2.14 Mae'r £8.1 biliwn yn cynnwys cyfalaf a ariannwyd trwy fenthyciadau gan Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r Cynllun Cyllid Seilwaith, roedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu benthyca £450,000 dros y tair blynedd, yn ôl cyfradd o £150 miliwn y flwyddyn. Dros y ddwy flynedd gyntaf fe fenthyciodd £275 miliwn, a hithau wedi benthyca £25 miliwn yn llai na'r bwriad yn 2023-24 oherwydd tanwariant ar ei chyllideb gyfalaf. Mae'n bwriadu benthyca £150 miliwn yn 2024-25.

2.15 Fe wnaeth Llywodraeth Cymru 'or-raglennu'r' Cynllun Cyllid Seilwaith trwy ymrwymo i neilltuo £330 miliwn yn fwy na'r cyllid a oedd ar gael dan gynlluniau gwariant Llywodraeth y DU ar y pryd. Fe wnaeth hynny'n rhannol oherwydd, yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol, ei bod yn disgwyl cyllid pellach gan Lywodraeth y DU yn ystod y tair blynedd.


2.16 Fe wnaeth hynny hefyd am bod gor-raglennu'n arfer da mewn rheolaeth ariannol ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Mae'n helpu i reoli tanwariannau ar raglenni a phrosiectau unigol. Mae hefyd yn helpu i filwrio yn erbyn y posibilrwydd bod rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu prosiectau'n gyflym os bydd cyllid newydd ar gael yn hwyr yn y flwyddyn ariannol. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal ac yn cyhoeddi llif o brosiectau y gall eu dwyn gerbron os bydd mwy o gyllid na'r disgwyl ar gael.

2.17 Mewn termau real, mae gwariant cyfalaf a'r gyllideb gyfalaf wedi bod yn wastad fwy neu lai dros gyfnod y Cynllun Cyllid Seilwaith ar oddeutu £2.7 biliwn y flwyddyn. Mae hyn ychydig yn uwch na'r brig cyn COVID yn 2019-20 o oddeutu £2.5 biliwn.

2.18 Fodd bynnag, mae costau adeiladu seilwaith newydd wedi codi'n gynt na chwyddiant dros y blynyddoedd diwethaf gyda chynnydd sydyn yn 2022-23 (gweler **Arddangosyn 6**). Rhwng 2020-21 a 2023-24, fe gododd cost seilwaith newydd 21 pwynt canran o'i gymharu â chynnydd o 13 pwynt canran mewn chwyddiant[11]. Mae codiadau ar y cyfan mewn costau cynnal a chadw wedi bod ychydig yn uwch na chwyddiant.

11 Dangosodd ein hadroddiad diweddar ar dai fforddiadwy (gweler **troednodyn 7**) y bu codiadau sydyn yng nghostau deunyddiau adeiladu. Dangosodd sut yr oedd y pwysau o ran costau'n golygu y byddai'r cyllid a oedd ar gael yn darparu llawer llai o gartrefi na'r disgwyl pan bennwyd y gyllideb tair blynedd fel rhan o'r Cynllun Cyllid Seilwaith.

**Arddangosyn 6: newidiadau mewn costau adeiladu a chwyddiant, rhwng 2020-21 a 2023-24**




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Mynegeion Prisiau Allbynnau Adeiladu, Diweddariad Chwefror 2025

Nodiadau:

1 Mae'r Arddangosyn hwn yn cymharu sut y mae pob mesur wedi cynyddu o ran canran ers 2020-21 (2020-21 = 100).

2 Rydym wedi defnyddio chwyddiant fel y'i nodir yn natchwyddyddion Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys EF yn ôl y sefyllfa ym mis Mawrth 2025.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu Cynllun Cyllid Seilwaith un flwyddyn ar gyfer 2025-26 ac mae'n ystyried sut i ddatblygu Cynlluniau Cyllid Seilwaith ar gyfer y dyfodol yng ngoleuni adolygiad o wariant y DU sydd ar ddod ac etholiadau'r Senedd yn 2026


2.19 Ym mis Rhagfyr 2024, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cyllid Seilwaith un flwyddyn ar gyfer 2025-26 yn hytrach na chynhyrchu Cynllun Cyllid Seilwaith tair blynedd newydd fel yr oedd wedi bwriadu ei wneud yn wreiddiol[12]. Fe wnaeth hynny i'w galluogi i gynnal adolygiad o wariant yn seiliedig ar gynllun gwariant pum mlynedd Llywodraeth y DU a oedd i fod i gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2025. Wrth gynhyrchu'r Cynllun Cyllid Seilwaith un flwyddyn, ni chynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad cwbl gynhwysfawr.

12 Llywodraeth Cymru, Y Cynllun Cyllid Seilwaith 2025-26, Rhagfyr 2024

2.20 Yn dilyn cyllideb Llywodraeth y DU ym mis Hydref 2024, mae gan Lywodraeth Cymru fwy o gyllid cyfalaf ar gyfer 2025-26 nag o dan gyllideb flaenorol mis Mawrth 2024. Dengys dogfennau Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru y bydd y gyllideb gyfalaf gyffredinol ar gyfer 2025-26 o £3.4 biliwn £609 miliwn yn uwch na'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2024-25; cynnydd o 19% mewn termau real. Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchu effaith newidiadau cyfrifyddu ar linell sylfaen 2024-25 (gweler **paragraff 2.12**). Mae dogfennau cyllideb Llywodraeth y DU ar gyfer mis Hydref 2024, sy'n cyflwyno'r ffigyrau ar sail gyson, yn dangos cynnydd mwy cymedrol o 2.4% mewn termau real yng nghyllideb gyfalaf gyffredinol Llywodraeth Cymru.

2.21 Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried sut i ddatblygu ei Chynllun Cyllid Seilwaith o 2026-27 ymlaen yng ngoleuni Adolygiad o Wariant y DU ac etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026. Ni fydd manylion y lefelau cyllid yn hysbys nes bod adolygiad o wariant y DU wedi'i gwblhau ym mis Mehefin 2025. Mae rhagolygon Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar gyllideb Llywodraeth y DU ym mis Hydref 2024 yn awgrymu y gall swm y cyfalaf sydd ar gael ddechrau gostwng mewn termau real ar ôl 2026-27 (gweler **Arddangosyn 7**).

**Arddangosyn 7: Rhagolygon Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid cyfalaf mewn termau real rhwng 2024-25 a 2029-30 (prisiau 2023-24)**




Ffynhonnell: data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n tanategu'r dadansoddiad yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024, Rhagfyr 2024.

Nodyn: Mae'r siart hon yn cynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol a chyllid ar gyfer ailddosbarthu lesoedd (gweler **paragraff 2.12 ac Atodiad 2**). Fe gyfrifodd Llywodraeth Cymru'r rhagolygon mewn termau real gan ddefnyddio ddatchwyddyddion Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys EF yn ôl y sefyllfa ym mis Mawrth 2024.

# Gweithredu

03

3.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn bwrw golwg ar y gwersi i Lywodraeth Cymru o dair blynedd gyntaf gweithredu'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

**Yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano**

Fe wnaethom ystyried a oes edefyn aur eglur rhwng y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r trefniadau tanategol ar gyfer cynllunio, arfarnu, cymeradwyo, a goruchwylio rhaglenni a phrosiectau seilwaith i lywio newid. Roeddem hefyd yn chwilio am drefniadau eglur a chyson i fonitro cynnydd tuag at gyflawni amcanion a deilliannau bwriadedig y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

## Ni wnaeth adolygiad cwbl gynhwysfawr 2021 sefydlu aliniad cadarn â deilliannau strategol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ac mae cyfraniadau bwriadedig nifer o feysydd buddsoddi i'w gweld yn anuchelgeisiol

3.2 Fe wnaeth adolygiad cwbl gynhwysfawr Llywodraeth Cymru yn 2021 hi'n ofynnol i adrannau ddangos sut y mae meysydd buddsoddi o gymorth i gyflawni'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, a oedd ar ffurf dogfen ddrafft ar y pryd, ynghyd ag uchelgeisiau allweddol eraill gan y Llywodraeth. Roedd y cyflwyniadau a welsom yn ein pum astudiaeth achos yn gymysg o ran eu hansawdd, gydag un yn peidio â mynegi'n benodol sut y mae'n rhoi cymorth i gyflawni'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Roedd rhai'n nodi'n gyffredinol sut y byddent yn ategu'r strategaeth, ond nid oedd yr un ohonynt yn rhoi disgrifiad clir o gamau gweithredu penodol gyda mesurau bwriadedig o lwyddiant yn erbyn y deilliannau strategol.

3.3 I oleuo'r Cynllun Cyllid Seilwaith 2022-23 i 2024-25, fe adnabu adrannau Llywodraeth Cymru pa rai o'r deilliannau strategol y byddai pob maes buddsoddi'n cyfrannu atynt. Mae **Arddangosyn 8** yn darparu enghreifftiau. Mae'r Cynllun Cyllid Seilwaith wedi'i rannu'n 16 sector, y ceir 53 o feysydd buddsoddi oddi tanynt[13]. Gallai maes buddsoddi fod yn un rhaglen neu brosiect neu fe allai gwmpasu sawl un.

13 Roedd canllawiau gan Adran Trysorlys Llywodraeth Cymru'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddechrau bod adrannau'n adnabod tri 'phrif' ddeilliant ar gyfer pob sector ac roeddent yn caniatáu i adrannau adnabod deilliannau eraill y gallai eu sectorau gyfrannu atynt. Wedyn fe wnaeth adrannau adnabod deilliannau strategol ar gyfer pob maes buddsoddi.

**Arddangosyn 8: enghreifftiau o sut y mae meysydd buddsoddi Llywodraeth Cymru'n cysylltu â deilliannau strategol a meysydd llesiant y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**

| | | Llesiant amgylcheddol | | | | Llesiant cymdeithasol | | | | Llesiant cymdeithasol | | | | Llesiant diwylliannol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sector** | **Man buddsoddi** | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** | **12** | **13** | **14** | **15** | **16** |
| Tai | Tai cymdeithasol | ● | | | ● | | | ● | | | | | | | | | ● |
| | Datgarboneiddio cartrefi Cymru | ● | | | | | | ● | | | | | | | | | |
| | Diogelwch adeiladau | | | | | ● | ● | ● | | | | | | | | | |
| | Y gronfa gofal integredig ac addasiadau | | | | | ● | | ● | | | | | | | | | ● |
| | Cymorth prynu | | | | | | | ● | | | | | | | | | ● |
| | Tai'r farchnad | | | | | | | ● | | | | | | | | | ● |
| | Cyflenwad y sector rhentu preifat | ● | | | | | | ● | | | | | | | | | ● |
| Teithio llesol a chynaliadwy | Teithio llesol | ● | | | | ● | | ● | ● | | | | | | | | |
| | Seilwaith cerbydau trydan | ● | | ● | | | | | | | | | | | | | |
| | Cronfa trafnidiaeth leol | ● | | | | | | | ● | ● | | | | | | | |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | Rheilffyrdd | ● | | | | | | | | ● | ● | | | ● | | | |
| | Bysiau | ● | | | | | | | ● | ● | ● | | | | | | |

| Sector | Man buddsoddi | Llesiant amgylcheddol | | | | Llesiant cymdeithasol | | | | Llesiant cymdeithasol | | | | Llesiant diwylliannol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 |
| Ffyrdd | Rhwydwaith ffyrdd strategol | | ● | | | ● | | | | ● | | | | | | | |
| | Cronfa diogelwch ar y ffyrdd | | | | | ● | | | | | | | | | | | |
| Adfywio | Trawsnewid trefi | | ● | | | | | | ● | ● | | | | | | | ● |
| | Diogelwch tomenni glo | | | ● | | ● | | | | | | | | | | | |
| Iechyd a gofal cymdeithasol | Seilwaith y GIG | ● | | | | ● | ● | | | | | ● | | | | | |
| | Gofal sylfaenol a chymunedol | ● | | | | ● | ● | | | | | | | | | | |
| | Seilwaith digidol | ● | | | | ● | ● | | | | | | | | | | |
| | Cyfarpar y GIG | ● | | | | ● | ● | | | | | | | | | | |
| | Gofal cymdeithasol | | | | | ● | ● | | ● | | | | | | | | |
| Datgarboneiddio | Tlodi tanwydd a chartrefi cynnes | ● | | | | | | ● | | | | ● | | | | | |
| | Gwasanaeth ynni Llywodraeth Cymru a byw'n glyfar | ● | | | | | | | | | | ● | | | | | |
| | Ynni morol | ● | | | | | | | | | | ● | | | | | |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Cynllun Cyllid Seilwaith 2022-23 i 2024-25, Rhagfyr 2021

Nodyn: Mae pob rhif dan y maes yn cynrychioli un o'r pedwar deilliant strategol a restrwyd ar gyfer y maes hwnnw (gweler **Arddangosyn 2**).

3.4 Mae'r deilliannau a adnabuwyd gan adrannau yn 2021 i'w gweld yn anuchelgeisiol o ystyried nod craidd y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i ehangu effaith buddsoddi mewn seilwaith. Ar gyfartaledd, roedd pob maes buddsoddi'n adnabod cyfraniadau disgwyliedig i dri yn unig o'r 16 o ddeilliannau strategol gyda rhai'n adnabod cyn lleied ag un. Yn ymarferol, efallai eu bod wedi gwneud cyfraniadau ehangach nag a adnabuwyd ar y pryd. Fodd bynnag, nod craidd y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yw darparu fframwaith strategol i adrannau ei ddefnyddio i fynd ati'n weithredol i gynllunio ar gyfer y cyfraniadau hynny, eu rheoli, a'u gwerthuso.

3.5 Mae'n werth nodi mai dim ond oddeutu hanner y meysydd buddsoddi (27 allan o 53) a adnabu'n benodol eu bod yn cyfrannu at unrhyw un neu rai o'r deilliannau llesiant economaidd. Ni wnaeth sectorau cyfan tai, llywodraeth leol (gan gynnwys Bargeinion Dinesig), a'r gymuned adnabod unrhyw gyfraniad at lesiant economaidd. Ar y cyd, mae'r tri sector hyn yn rhoi cyfrif am £1.1 biliwn o gyfalaf a ddyrannwyd yng nghyllideb 2025-26. Mae'n annhebygol na fydd y buddsoddiad hwn yn gwneud cyfraniad mesuradwy i lesiant economaidd.

3.6 Ym mis Awst 2023, ddwy flynedd ar ôl cyflwyno'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r Cynllun Cyllid Seilwaith, fe gyhoeddodd Adran Trysorlys Llywodraeth Cymru 'fodel rhesymeg' i adrannau ei gwblhau ar gyfer eu meysydd buddsoddi. Mae'r model rhesymeg yn rhan o'r fframwaith i roi cymorth i werthuso (gweler **paragraffau 3.24 i 3.30**).

3.7 Mae'r model yn dilyn model cynllunio mewnbynnau-allbynnau-deilliannau sydd wedi hen ennill ei blwyf. Mae'n ymwneud â choladu dyraniadau cyllidebol, allbynnau, dangosyddion perfformiad, a deilliannau prosiectau a rhaglenni lluosog sy'n eistedd o fewn maes buddsoddi. Er bod Llywodraeth Cymru wedi poblogi'r model rhesymeg ymlaen llaw â'r deilliannau strategol a adnabuwyd yn wreiddiol gan feysydd buddsoddi yn 2021, gallai adrannau ychwanegu rhai eraill.

3.8 Dywedodd Adran Trysorlys Llywodraeth Cymru wrthym, er bod ymrwymiad ar y cyd i'r dull model rhesymeg, nad oedd yn cyfarwyddo adrannau i'w ddefnyddio. Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd adrannau Llywodraeth Cymru wedi cwblhau modelau rhesymeg ar gyfer 11 yn unig o'r 53 o feysydd buddsoddi (21%). Nid oes proses i herio na gweithgarwch i fonitro ansawdd modelau rhesymeg yn ganolog, ac fe ganfuom amrywiad yn ansawdd cynnwys y ffurflenni a gwblhawyd.

3.9 Pe bai'n cael ei integreiddio â dull cadarn o reoli rhaglenni a phrosiectau, gallai'r model rhesymeg ddarparu'r 'edefyn aur' rhwng deilliannau strategol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a chyflawni. Fodd bynnag, nid yw'n rhan o fframwaith ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio a rheoli rhaglenni a phrosiectau, yr ydym yn ei ystyried isod.

## Ceir gwendidau ar draws fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio a rheoli rhaglenni a phrosiectau ac nid yw'n alinio ddigon â'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

### Nid yw Llywodraeth Cymru wedi diweddaru ei chanllawiau a thempledi craidd ar gyfer cynllunio rhaglenni a phrosiectau i alinio â'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a defnyddio dangosyddion perfformiad cenedlaethol perthnasol mewn modd cyson

3.10 Mae llwyddiant y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n dibynnu ar y modd y mae adrannau Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod rhaglenni a phrosiectau seilwaith yn cyfrannu at y deilliannau strategol. Mae'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n nodi bod 'cyflawni'r trawsnewid hwn yn mynnu newid ar bob lefel o ran sut y caiff buddsoddiadau eu cynllunio, eu cymeradwyo, eu cyflawni a'u rheoli'.

3.11 Mae canllawiau Gwell Achosion Busnes Llywodraeth Cymru[14] yn nodi sut y dylai adrannau gynllunio rhaglenni a phrosiectau. Mae Llywodraeth Cymru'n seilio'i fframwaith ar ganllawiau generig Trysorlys EF ar gyfer y DU gyfan a'i fodel pum achos (gweler **Arddangosyn 9**). Mae'r rhain yn adlewyrchu arfer da hirsefydlog.

14 Llywodraeth Cymru, Gwell achosion busnes: fframwaith gwneud penderfyniadau buddsoddi, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2018

**Arddangosyn 9: Fframwaith arfer da'r DU a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gynllunio ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith**

| Canllawiau | Sylwebaeth |
|---|---|
| Llyfr Gwyrdd Llywodraeth y DU | Canllawiau ar gyfer yr holl gynigion sy'n cynnwys gwariant cyhoeddus ynghylch arfarnu polisïau, rhaglenni, a phrosiectau; ac ynghylch dylunio a defnyddio prosesau monitro a gwerthuso.<br>Er bod defnyddio'r Llyfr Gwyrdd yn orfodol, mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i adrannau ei ddefnyddio'n gymesur gan ystyried cost, manteision, a risgiau'r cynnig. |
| Model pum achos | Mae'r dull ar gyfer datblygu achosion busnes dan y Llyfr Gwyrdd yn ei gwneud yn ofynnol nodi'r achosion strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheoli.<br>Mae'r model yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr adnabod gweledigaethau, blaenoriaethau a strategaethau sefydliadol perthnasol a dangos sut y maent yn bwriadu eu hategu. |
| Sicrwydd porth | Proses o gael sicrwydd annibynnol ar amryw gamau, gan gynnwys cynllunio. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu i adrannau ddefnyddio adolygiadau porth ar y cyd â phrosesau archwilio mewnol a phrosesau sicrwydd eraill. |

Ffynhonnell: crynodeb Archwilio Cymru

3.12 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi diweddaru ei fframwaith cynllunio rhaglenni a phrosiectau i adlewyrchu'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae'r canllawiau'n cynnwys set o dempledi, sy'n seiliedig ar y model pum achos, ond nid yw'r templedi hyn yn orfodol. Er bod y canllawiau a'r templedi'n cyfeirio at yr angen i alinio cynigion â pholisïau a strategaethau ehangach, nid ydynt yn ysgogi adrannau i alinio eu cynlluniau'n benodol â deilliannau strategol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

3.13 Er bod yr 16 o ddeilliannau strategol yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n fesuradwy, nid yw Llywodraeth Cymru wedi dweud pa ddangosyddion ansoddol a meintiol y bydd yn eu defnyddio i ddangos cynnydd. Mae canllawiau a thempledi cynllunio rhaglenni a phrosiectau'n adnabod yr angen i achosion busnes nodi manteision mesuradwy. Nid ydynt yn nodi'r hyn y dylent ei gynnwys. Mae ar brosiectau a rhaglenni unigol angen rhai dangosyddion pwrpasol i adlewyrchu eu gwahanol amcanion. Fodd bynnag, mae arnynt hefyd angen dangosyddion cyffredin i sicrhau cysondeb ac aliniad â'r deilliannau strategol.

3.14 Mae gan Lywodraeth Cymru eisoes rai dangosyddion cenedlaethol perthnasol (gweler **Arddangosyn 10**). Yn ein barn ni, mae cyfle i wreiddio'r rhain yn y canllawiau a'r templedi i sicrhau dull mwy cyson.

**Arddangosyn 10: enghreifftiau o ddangosyddion cenedlaethol presennol sy'n berthnasol i ddeilliannau strategol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**

| Dangosyddion | Sylwebaeth |
|---|---|
| Dangosyddion llesiant cenedlaethol | Y dangosyddion cyffredinol o lesiant cenedlaethol yw'r rhain. Er bod nifer yn ystadegau cenedlaethol a all fod yn rhy gyffredinol i'w defnyddio ar gyfer prosiectau a rhaglenni penodol, gallant oleuo dewisiadau ynglŷn â dangosyddion.<br><br>Er enghraifft, efallai na fydd lefelau cyflogaeth ar y cyfan yn fesur priodol ar gyfer prosiect, ond byddai nifer y swyddi a grëwyd yn fesur da o'i gyfraniad at y dangosydd llesiant a'r deilliant strategol perthnasol yn Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. |
| Dangosyddion manteision cymunedol ym maes caffael | Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi set o ddangosyddion manteision cymunedol i ategu caffael cynaliadwy.<br><br>Mae'r rhain yn cwmpasu nifer o feysydd sy'n berthnasol i'r deilliannau strategol a'r dangosyddion llesiant gan gynnwys manteision amgylcheddol, cyflogaeth a hyfforddiant, a chefnogi busnesau lleol. |
| Dangosyddion sero net | Mae gan Lywodraeth Cymru ganllaw adrodd ar garbon sero net sy'n nodi sut i fesur allyriadau carbon yn gyson gan ddefnyddio data a metrigau gweithgarwch diffiniedig. Mae taenlen ar gyfer casglu'r wybodaeth hon yn ategu'r canllaw. |

Ffynhonnell: crynodeb Archwilio Cymru

3.15 Ar draws ein pum astudiaeth achos, canfuom ddull anghyson o lunio achosion busnes. Er bod pob un yn nodi, ar lefel rhaglen, eu hachosion strategol ac ariannol trwy adolygiad cwbl gynhwysfawr, dim ond un oedd ag achos busnes llawn yn unol â'r model pum achos. Mae pedair o'r astudiaethau achos yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n ymgeisio am gyllid dan y rhaglenni gyflwyno achosion busnes gan ddefnyddio'r fformat pum achos.

**Ceir gwendidau sylweddol eraill o ran sut y mae Llywodraeth Cymru'n cymhwyso'i dull o reoli rhaglenni a phrosiectau**

3.16 Cydnabu Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru bod angen iddi gryfhau trefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau i gyflawni'r deilliannau strategol. Fodd bynnag, dros y 18 mis diwethaf mae adolygiadau archwilio mewnol Llywodraeth Cymru wedi adnabod gwendidau sylweddol (gweler **Arddangosyn 11**).

**Arddangosyn 11: canfyddiadau archwilio mewnol diweddar Llywodraeth Cymru ynglŷn â rheoli rhaglenni a phrosiectau**

Adroddodd y gwasanaeth archwilio mewnol ar aliniad â fframweithiau arfer gorau ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau ym mis Mehefin 2023 ac fe gyhoeddodd adroddiad 'dim sicrwydd' prin. Fe geisiodd Llywodraeth Cymru ymateb trwy ei rhaglen 'Troi'n Wyrdd' i wella ei sgôr sicrwydd mewn perthynas â rheoli rhaglenni a phrosiectau. Fe wnaeth y gwasanaeth archwilio mewnol adolygu'r cynnydd mewn adroddiad ym mis Mehefin 2024 ond eto fe roddodd sgôr 'dim sicrwydd'.

Roedd canfyddiadau allweddol y gwasanaeth archwilio mewnol, o'i adroddiad cychwynnol, yn cynnwys:

- diffyg strategaeth cyflawni prosiectau drosfwaol;
- dim digon o adnoddau i roi cymorth i gyflawni, gan gynnwys swydd wag yn rôl y Proffesiwn Pennaeth Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau;
- dim fframwaith llywodraethu canolog ar gyfer cyflawni, a threfniadau llywodraethu ar lefel rhaglenni a phrosiectau wedi'u gwasgaru ar draws nifer o ddogfennau;
- canllawiau a oedd wedi dyddio;
- diffyg dull strategol ar gyfer prosesau sicrwydd a dull anghyson ar gyfer rheoli ac adrodd ariannol; a
- methiant i weithredu ar wersi a ddysgwyd a'u lledaenu.

Ffynhonnell: crynodeb Archwilio Cymru

3.17 Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, roedd archwilwyr mewnol Llywodraeth Cymru hwythau wrthi'n cwblhau adroddiadau ar achosion busnes a rheoli manteision. Roedd y ddau adroddiad archwilio mewnol hynny'n nodi gwendidau a oedd yn gyson â'n hasesiad ni (gweler **paragraffau 3.10 i 3.15**) a meysydd manwl eraill ar gyfer gwella.

3.18 Rydym yn nodi, wrth edrych yn ôl dros ddegawd, bod Llywodraeth Cymru wedi nodi cynlluniau i wella trefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau yn ei chyfrifon blynyddol ar gyfer 2013-14 a 2014-15. Dywedodd ar y pryd ei bod wedi sefydlu canolfan arbenigedd, wedi ailsefydlu cymuned ymarfer, ac wedi lansio hyfforddiant ar gyfer staff.

3.19 Mae'r canfyddiadau archwilio mewnol diweddar yn awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal gwelliannau blaenorol. Yn ystod ein gwaith maes ni, canfuom nad oedd gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth glir am sgiliau rheoli rhaglenni a phrosiectau seilwaith ar draws y sefydliad.

3.20 Ym mis Ionawr 2020, fe sefydlodd Llywodraeth Cymru Swyddfa Cyflawni Prosiectau, gan ddwyn ynghyd rai swyddogaethau a oedd yn bodoli eisoes. Mae'n darparu canllawiau ynghylch achosion busnes a chymorth arall i gyflawni prosiectau a rhaglenni, megis sicrwydd trwy adolygiadau porth a hyfforddiant.

3.21 Ar adeg ein gwaith maes, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod yn bwriadu cryfhau'r Swyddfa Cyflawni Prosiectau i ymdrin â chyfyngiadau o ran capasiti. Rydym yn deall ei bod wedi gwneud hynny yn y cyfamser trwy ychwanegu adnoddau staff at amryw weithgareddau rheoli rhaglenni a phrosiectau. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod â swyddi gwag mewn rhai meysydd.

3.22 Canfuom hefyd wendidau mewn goruchwyliaeth ar gyflawni seilwaith ar y cyfan. Mae gan Lywodraeth Cymru Grŵp Strategaeth Seilwaith trosfwaol. Mae ei gylch gorchwyl, a ddiweddarwyd ym mis Gorffennaf 2023, yn datgan mai: 'Diben y Pwyllgor yw darparu goruchwyliaeth strategol ar fuddsoddiadau a chynlluniau seilwaith ar draws adrannau i ategu dull Llywodraeth gyfan o gynllunio a dyrannu adnoddau yn unol â'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'. Fodd bynnag, nid oes ganddo'r data angenrheidiol ar gynnydd i ddarparu goruchwyliaeth strategol gadarn, yn unol â'i gylch gorchwyl.

3.23 Er bod gwahaniaethau o ran graddfa a chylch gwaith, mae’r sefyllfa’n groes i’r sefyllfa yn Lloegr, lle, ar adeg ein gwaith maes, yr oedd gan yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau[15] oruchwyliaeth ar raglenni a phrosiectau seilwaith allweddol. Cyhoeddodd adroddiadau blynyddol ar gynnydd, gan gynnwys ar gostau, manteision ariannol. a hyder ynglŷn â chyflawni gan ddefnyddio system sgorio goleuadau traffig[16].

## Mae fframwaith gwerthuso’r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru’n defnyddio egwyddorion arfer da ond mae mabwysiadu anghyson ar draws meysydd buddsoddi a bylchau yn y data’n golygu bod y deilliannau ar y cyfan yn aneglur

3.24 Ddwy flynedd ar ôl ei lansio, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru fframwaith gwerthuso ar gyfer y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae dwy ran iddo: y model rhesymeg (gweler **paragraffau 3.6 i 3.9**) a’r templed gwerthuso. Fe ddatblygodd Llywodraeth Cymru’r fframwaith gan ddefnyddio canllawiau arfer da ar gyfer y DU gyfan, gan gynnwys Llyfr Gwyrdd Llywodraeth y DU (gweler **Arddangosyn 10**) a’r Llyfr Magenta[17]. Mae’r fframwaith gwerthuso’n gam cadarnhaol tuag at alluogi Llywodraeth Cymru i ddangos effaith y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a’r buddsoddiadau sylweddol a wnaed mewn seilwaith.

3.25 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru dempledi gwerthuso interim a therfynol i feysydd buddsoddi eu cwblhau (gweler **Arddangosyn 12**). Mae Llywodraeth Cymru’n bwriadu defnyddio gwerthusiadau interim i asesu cynnydd ar gyfer cyfnod pob Cynllun Cyllid Seilwaith. Wedyn bydd yn ystyried y gwerthusiadau interim ochr yn ochr â gwerthusiad terfynol i asesu llwyddiant cyffredinol maes buddsoddi, a chynnal asesiad cyfunol o’r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar y cyfan. Y gwahaniaeth allweddol rhwng y templedi yw bod y gwerthusiad terfynol yn ei gwneud yn ofynnol rhoi manylion y cynnydd yn erbyn pob un o’r deilliannau strategol, tra bo’r gwerthusiad interim yn ei gwneud yn ofynnol rhoi arwydd cynnar o’r cynnydd yn erbyn y deilliannau ar y cyfan.

15 Yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau oedd canolfan arbenigedd Llywodraeth y DU ar gyfer prosiectau seilwaith a phrosiectau mawr ac yr oedd yn gweithio gyda Swyddfa’r Cabinet a Thrysorlys EF. Ym mis Ebrill 2025, creodd Llywodraeth y DU Awdurdod Cenedlaethol Trawsnewid Seilwaith a Gwasanaethau, gan ddod â’r Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau cynt a’r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol ynghyd.

16 Mae Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau 2023-24, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025, yn nodi costau a manteision ariannol disgwyliedig pob prosiect ac yn rhoi sgôr i hyder ynglŷn â chyflawni ar draws gwahanol gategorïau gan ddefnyddio sgôr coch, ambr, gwyrdd, neu esempt.

17 Trysorlys EF, Y Llyfr Magenta: canllawiau’r Llywodraeth ganolog ynghylch gwerthuso, Mawrth 2020

**Arddangosyn 12: cwmpas templedi gwerthuso interim a therfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru**

| Cam | Nodau |
| --- | --- |
| Gwerthusiad interim | • Fe'i cynhelir tuag at ddiwedd cyfnod Cynllun Cyllid Seilwaith i oleuo dyraniad cyfalaf ar gyfer yr un canlynol.<br>• Archwilio sut y mae adrannau'n cyflawni'r meysydd buddsoddi.<br>• Nodi'r prif allbynnau.<br>• Ystyried unrhyw newidiadau y gall fod eu hangen i roi cymorth i'r maes buddsoddi gyflawni'r deilliannau strategol a pha un a yw'r deilliannau hynny'n dal i fod yn ddilys.<br>• Nodi heriau i gyflawni, sut y rheolwyd y rhain, a gwersi a ddysgwyd.<br>• Bydd yn bwydo i mewn i'r gwerthusiad cyffredinol o lwyddiant ar gyfer y maes buddsoddi, ac ar gyfer y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar ddiwedd ei hoes ddeng mlynedd. |
| Gwerthusiad terfynol | • Fe'i cynhelir ar feysydd buddsoddi lle mae cyflawni gweithgareddau wedi dod i ben.<br>• Nodi'r prif allbynnau.<br>• Asesu perfformiad cyffredinol ac effaith net y maes buddsoddi yn erbyn y deilliannau strategol.<br>• Nodi heriau i gyflawni, sut y rheolwyd y rhain, a gwersi a ddysgwyd.<br>• Bydd yn bwydo i mewn i'r gwerthusiad cyffredinol o'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar ddiwedd ei hoes ddeng mlynedd. |

Ffynhonnell: crynodeb Archwilio Cymru

3.26 Mae'r templedi gwerthuso'n anghyson o ran sut y maent yn trin egwyddorion trawsbynciol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae'r ffurflenni gwerthuso'n cynnwys cwestiwn penodol sy'n ymwneud â'r effeithiau ar allyriadau carbon ond nid yr elfen argyfwng natur o'r egwyddor drawsbynciol. Nid yw'r pum egwyddor drawsbynciol sy'n weddill wedi eu cynnwys fel cwestiynau unigol. Yn lle hynny, maent yn rhan o gwestiwn dal popeth ynglŷn â chynnydd o ran cyflawni yn erbyn yr egwyddorion trawsbynciol.

3.27 Fe gynhyrchodd Adran Trysorlys Llywodraeth Cymru ganllawiau i ategu'r templedi gwerthuso (a'r modelau rhesymeg). Nid yw'r canllawiau'n nodi disgwyliadau eglur ynglŷn â natur a chwmpas y cynnwys y dylai adrannau ei ddarparu. Dywedodd Adran y Trysorlys wrthym ei bod yn darparu canllawiau ychwanegol ar lafar, lle mae adrannau'n gofyn amdanynt.

3.28 Pennodd Llywodraeth Cymru fis Mehefin 2024 fel terfyn amser i feysydd buddsoddi gwblhau eu ffurflenni gwerthuso interim cyntaf. Canfuom, ym mis Rhagfyr 2024, fod adrannau wedi cynhyrchu gwerthusiadau interim ar gyfer 34 yn unig o'r 53 (64%) o feysydd buddsoddi.

3.29 Dengys ein hadolygiad o sampl o bedwar gwerthusiad a oedd yn gysylltiedig â'n hastudiaethau achos gymysgedd o ran ansawdd a manylder. Nid yw'r un ohonynt yn adrodd mewn modd sy'n alinion benodol â deilliannau strategol y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae rhai'n darparu manylion naratif lefel-uchel am gynnydd mewn meysydd perthnasol fel effeithiau economaidd, tra bo eraill yn canolbwyntio'n bennaf ar fanteision uniongyrchol y buddsoddiad. Ni chynhelir adolygiad na gwiriad ansawdd canolog o gynnwys ffurflenni gwerthuso'r meysydd buddsoddi.

3.30 Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i adrodd yn gyhoeddus ar ganlyniadau gwerthusiadau interim diweddar o feysydd buddsoddi unigol. Nid oes ganddi unrhyw gynlluniau pendant ar hyn o bryd i adrodd yn gyhoeddus ar y gwerthusiad terfynol unwaith y bydd y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru'n dod i ben yn 2031 ychwaith. Yn ein barn ni, byddai'n werth adrodd yn gyhoeddus ar yr effeithiau cyffredinol yn erbyn y deilliannau strategol hyd yma i ategu gwaith craffu a dysgu gwersi ar gyfer cyfnodau Cynlluniau Cyllid Seilwaith yn y dyfodol.

# Atodiadau

1 Ynglŷn â'n gwaith

2 Cyllid a chyfrifyddu ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith

3 Acronymau a ddefnyddir yn fynych yn fersiwn Saesneg yr adroddiad hwn

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwestiwn, cwmpas a meini prawf yr archwiliad

Fe wnaethom ystyried a oes gan Lywodraeth Cymru ddull strategol cadarn o roi cymorth i gyflawni ei huchelgeisiau o ran buddsoddi mewn seilwaith.

Fe ganolbwyntiom ni ar y dull strategol ar y cyfan trwy'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a threfniadau sydd o gymorth i'w chyflawni. Ni wnaethom asesu effeithiolrwydd pob agwedd ar fuddsoddi cyfalaf a buddsoddi mewn seilwaith. Ni wnaethom fwrw golwg ar werth am arian rhaglenni a phrosiectau seilwaith unigol ychwaith.

Nid oeddem yn disgwyl gweld trefniadau union yr un fath ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, ond fe wnaethom fwrw golwg ar gydlyniad cyffredinol dull Llywodraeth Cymru. Fe wnaethom ystyried y cyfeiriad strategol a bennwyd trwy'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a pha un a yw trefniadau tanategol yn sefydlu 'edefyn aur' eglur, gan integreiddio'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar draws gwahanol feysydd polisi ac o fewn rhaglenni a phrosiectau i alinio â'i huchelgeisiau a manteision bwriadedig eang.

Rydym wedi nodi ein meysydd ffocws ar ddechrau pob rhan o'r adroddiad. Wrth ddatblygu ein meini prawf archwilio, fe wnaethom ystyried yr adnoddau canlynol:

- y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ei hun a'r Cynllun Cyllid Seilwaith ategol 2022-23 i 2024-25.
- canllawiau Trysorlys EF ynghylch arfarnu a gwerthuso yn y Llywodraeth ganolog ('y Llyfr Gwyrdd') a chanllawiau cysylltiedig.
- canllawiau mewnol Archwilio Cymru, gan gynnwys ein 'dangosyddion cadarnhaol' sy'n set ddangosol o nodweddion sy'n disgrifio sut y gallai cyrff gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n effeithiol. Rydym wedi defnyddio'r dangosyddion hyn i oleuo archwiliadau blaenorol o roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Fe ddatblygom ni'r dangosyddion cadarnhaol trwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac ar sail cyngor ac arweiniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

## Dulliau archwilio

### Adolygu dogfennau

Fe wnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennaeth gan gynnwys:

- Y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, y Cynllun Cyllid Seilwaith 2022-23 i 2024-25 a'r Cynllun Cyllid Seilwaith ar gyfer 2025-26
- Papurau a chofnodion cyfarfodydd Grŵp Strategaeth Seilwaith Llywodraeth Cymru
- Adroddiadau archwilio mewnol Llywodraeth Cymru
- Cofrestrau risgiau Llywodraeth Cymru
- Canllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys templedi cynllunio

### Astudiaethau achos

Fe wnaethom fwrw golwg ar bum astudiaeth achos. Roeddem yn ceisio adnabod a oes gwersi i'w dysgu o ran sut y mae'r rhaglenni neu'r prosiectau'n alinio â'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Fe ddewisom ni bedwar maes ein hunain a oedd yn cyd-fynd ag adolygiadau diweddar neu arfaethedig gan Archwilio Cymru, sef:

- Rheoli perygl llifogydd
- Tai fforddiadwy
- Cymunedau dysgu cynaliadwy (buddsoddi yn adeiladau ysgolion a cholegau)
- Teithio llesol

Ni ddarparodd Llywodraeth Cymru wybodaeth ychwanegol ar ein cyfer am deithio llesol ar gyfer yr archwiliad hwn. Fodd bynnag, fe ddefnyddiom ni wybodaeth o'n gwaith blaenorol.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru awgrymu un maes pellach wrthym: Cronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gallai'r gronfa hon fod yn berthnasol i waith arall yn ein rhaglen archwilio hefyd.

### Cyfweliadau lled strwythuredig

Fe wnaethom gyfweld **â swyddogion Llywodraeth Cymru** o Adran Trysorlys Llywodraeth Cymru, ei gwasanaeth cyllid canolog, a'r meysydd cyllid a gwmpaswyd gan ein hastudiaethau achos.

## Dadansoddi ariannol

Fe ddefnyddiom ni Ddadansoddiad Ystadegol o Wariant Cyhoeddus Llywodraeth y DU i nodi gwariant cyfalaf rhwng 2011-12 a 2021-22. Mae'r ffynhonnell ddata hon yn cwmpasu'r holl wariant cyfalaf a ariannwyd â'r grant bloc a threthi yng Nghymru, gan gynnwys cyfalaf trafodiadau ariannol. Mae'n cynnwys swm bach o gyfalaf a wariwyd gan Gomisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a Swyddfa Archwilio Cymru nad yw'n cael ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru.

I archwilio tueddiadau gwariant rhwng 2022-23 a 2024-25, fe ddefnyddiom ni gymysgedd o ffynonellau. Fe ddefnyddiom ni ddata alldro Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22, 2022-23, a 2023-24. Fe ddefnyddiom ni'r gyllideb ar gyfer 2024-25. Fe addasom ni ddata alldro i adlewyrchu cyllid ar gyfer lesoedd wedi'u hailddosbarthu (gweler **Atodiad 2**), gan ddefnyddio cyllidebau atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 a 2023-24.

Rydym wedi seilio ein cyfrifiadau mewn termau real ar ddatchwyddydd Cynnyrch Domestig Gros Trysorlys EF. Fe ddefnyddiom ni'r ddatchwyddyddion a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025.

Daw'r wybodaeth ar gyfer ein dadansoddiad o bwysau o ran costau o Fynegeion Allbynnau Adeiladu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r set ddata'n cynnwys amryw fynegeion costau. I adlewyrchu'r pwysau eang o ran costau, fe ddefnyddiom ni'r mynegeion ar gyfer seilwaith newydd a chynnal a chadw ac atgyweirio.

Daw data ar gyfer rhagolygon gwariant o ddadansoddiad Llywodraeth Cymru ei hun a nodwyd yn Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru 2024.

# 2 Cyllid a chyfrifyddu ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith

## Diffinio buddsoddiad mewn seilwaith

Nid oes diffiniad cytunedig o seilwaith yng Nghyfrifon Cenedlaethol y DU na chanllawiau cyfrifyddu rhyngwladol. Caiff gwariant ar asedau seilwaith newydd ac i atgyweirio a chynnal a chadw asedau seilwaith presennol ei gategoreiddio fel 'buddsoddiad' yn y cyfrifon cenedlaethol.

Yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, mae Llywodraeth Cymru'n nodi ei bwriad i ddefnyddio'r diffiniad 'ehangaf posibl' o seilwaith. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn seilwaith ffisegol megis ysgolion, adeiladau ac offer ysbytai, ffyrdd, ac amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae hefyd yn cynnwys seilwaith digidol a chymorth ar gyfer seilwaith busnes preifat i wella cynhyrchiant.

## Ffynonellau cyllid posibl ar gyfer buddsoddi

Mae buddsoddi mewn seilwaith yn gysylltiedig yn nodweddiadol â gwariant cyfalaf. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu seilwaith trwy refeniw, er enghraifft trwy fenthyca a thrwy gynlluniau lesio lle mae'r sector preifat yn creu'r ased ac yn adennill yr arian a fuddsoddwyd ynddo trwy daliadau gwasanaeth.

Mae **Arddangosyn 13** yn nodi'r ffynonellau allweddol ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Mae'n adeiladu ar **Arddangosyn 4** ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae'r ffynonellau a restrir isod fel rhai sydd ar gael yn cynnwys bondiau, nad yw wedi eu defnyddio ac nad ydynt wedi'u cynnwys yn ein crynodeb cynharach.

**Arddangosyn 13: ffynonellau ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith sydd ar gael i Lywodraeth Cymru**

| Ffynhonnell cyllid bosibl | Sylwebaeth |
|---|---|
| **Cyllid cyfalaf** | |
| Cyfalaf cyffredinol | Y brif ffynhonnell ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Mae'n cynnwys cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth y DU y mae Llywodraeth Cymru'n rhydd i wneud penderfyniadau yn ei gylch i'w ddefnyddio mewn meysydd a ddatganolwyd.<br><br>Mae hefyd yn cynnwys cyllid a godwyd trwy drethi yng Nghymru a chyllid a godwyd o gronfa wrth gefn Cymru sy'n dal hyd at £50 miliwn o gyfalaf o danwariannau mewn blynyddoedd blaenorol.<br><br>Mae dyraniad cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru yn ei chyllideb hefyd yn cynnwys cyllid a godwyd trwy fenthyca (gweler isod).<br><br>Mae cyfanswm dyraniadau cyfalaf cyffredinol ar gyfer 2024-25 yn £2.8 biliwn. |
| Cyfalaf trafodiadau ariannol | Rhan wedi'i chlustnodi o'r cyllid gan Lywodraeth y DU. Mae'n ariannu buddsoddiadau mewn asedau preifat ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ad-dalu 60% i 80% i Drysorlys EF. Roedd y gyllideb gyfalaf trafodiadau ariannol yn £167 miliwn yn 2024-25. Fodd bynnag, mae gwariant yn amrywio o un flwyddyn i'r llall, ac yn dibynnu ar y swm sydd ar gael i'w ailddyrannu o ad-daliadau. |
| **Cyllid refeniw** | |
| Benthyciadau | Gall Llywodraeth Cymru fenthyca cyfanswm o £1 biliwn gyda therfyn blynyddol o £150 miliwn. Mae'n benthyca o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol, y mae Llywodraeth y DU yn ei defnyddio i ddarparu benthyciadau i ddiwydiannau a wladolwyd a'r gweinyddiaethau datganoledig.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod cost refeniw'n gysylltiedig ag effeithiau benthyca. Mae Llywodraeth Cymru wedi benthyca £275 miliwn yn nwy flynedd gyntaf y Cynllun Cyllid Seilwaith. Mae rhagolygon diweddaraf Llywodraeth Cymru'n awgrymu ei bod yn disgwyl defnyddio ei chapasiti benthyca'n llawn erbyn 2028-29.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dibynnu ar barodrwydd awdurdodau lleol i ddefnyddio eu pwerau benthyca i gyflawni rhaglenni seilwaith allweddol. Mae awdurdodau lleol fel rheol yn benthyca o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Mae ymrwymiadau cyllid Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth ar gyfer rhywfaint o fenthyca gan lywodraeth leol tra bo benthyciadau eraill yn rhai 'heb gymorth'. Yn 2023-24, fe wariodd awdurdodau lleol £114 miliwn yn ad-dalu benthyciadau â chymorth a £449 miliwn yn ad-dalu benthyciadau heb gymorth. |

| Ffynhonnell cyllid bosibl | Sylwebaeth |
|---|---|
| Model Buddsoddi Cydfuddiannol | Menter gan Lywodraeth Cymru lle mae partneriaid yn y sector preifat yn adeiladu ac yn cynnal a chadw asedau cyhoeddus. Yn gyfnewid, bydd y corff yn y sector cyhoeddus yn talu tâl gwasanaeth blynyddol, a fydd yn cwmpasu cost adeiladu, cynnal a chadw, a chyllido'r prosiect.<br><br>Erbyn diwedd 2024, roedd Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r model ar gyfer rhannau 5 a 6 o waith i wella ffordd yr A465, Canolfan Ganser newydd Felindre, a dau brosiect dan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (ysgol pob oed yn Sir y Fflint a chlwstwr o dair ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf).<br><br>Ym mis Chwefror 2024, gwnaeth Llywodraeth Cymru amcangyfrif bod cyfanswm gwerth cyfalaf yr holl brosiectau hyn oddeutu £1 biliwn. Tuag £84 miliwn fydd cyfanswm y taliadau gwasanaeth blynyddol ar draws y prosiectau hyn (heb gynnwys TAW a chodiadau oherwydd chwyddiant). Mae pob prosiect yn rhychwantu 25 neu 30 mlynedd, gan ddiweddu rhwng 2049-50 a 2055-56.<br><br>Mae'r penderfyniad i ddefnyddio'r model yn yr achosion uchod yn rhagddyddio'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Yn dilyn adolygiad mewnol o ddefnyddio'r model dan y rhaglen addysg, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyfyngu unrhyw ddefnydd o'r model yn y dyfodol o fewn y rhaglen honno i brosiectau addysg bellach mwy. Cafwyd cadarnhad o ran trefniadau contractau ar gyfer prosiect arall ar gyfer Coleg Caerdydd a'r Fro ym mis Mawrth 2025. |
| Bondiau | Gall Llywodraeth Cymru ddyroddi bondiau ond mae angen iddi eu had-dalu â llog o refeniw. Mae bondiau'n ddrutach na benthyca o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol ond yn cyfrannu at y terfyn benthyca. Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi defnyddio bondiau ond mae'n croesawu bod â'r opsiwn i wneud hynny os yw'n dewis. |

Ffynonellau: crynodeb Archwilio Cymru a chan dynnu ar wybodaeth arall a gyhoeddwyd gan gynnwys: Cyllidebau 2021-22 i 2024-25 Llywodraeth Cymru; Llywodraeth Cymru, Cyllido Alldro Cyfalaf, Hydref 2024; Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol y Model Buddsoddi Cydfuddiannol: Gorffennaf 2022 – Mawrth 2024, Mai 2024

## Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16

Mae cymharu gwariant cyfalaf dros amser yn cael ei gymhlethu gan newidiadau cyfrifyddu diweddar. Mae newidiadau i'r trefniadau cyfrifyddu ar gyfer y rhan fwyaf o lesoedd o 2022-23 ymlaen dan IFRS 16 wedi arwain at gynnydd mewn gwariant cyfalaf yng nghyllideb Llywodraeth Cymru a'i chyfrifon blynyddol dilynol. Nid yw cyfanswm gwariant ar y cyfan wedi cynyddu ond mae'r ffordd y rhoddir cyfrif am lesoedd yn awr yn arwain at gynnydd yn y gwariant cyfalaf a gyflwynir.

O'i fynegi'n syml, am bob les â chyfnod o fwy na 12 mis, mae IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol cydnabod ased a rhwymedigaeth gyfatebol ar fantolen sefydliad (oni bai bod gwerth yr ased sylfaenol yn isel). Trwy ei gwneud yn ofynnol i lesoedd fod 'ar y fantolen', cânt eu trin fel cyfalaf, gan felly gynyddu gwariant cyfalaf.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: gwybodaeth@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.